**Cofnodion Cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Dydd Mercher, 23 Medi 2020 am 5.00yh o'r gloch ar Zoom. (Dechreuodd y cyfarfod am 5.04 fel bod pawb wedi gallu ymuno)**

**Presennol:** Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas (Dirprwy Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Alyn Ashworth, Glenn Swingler, Dyfrig Berry, Philip Stevens, Lara Pritchard, Irene Williams & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref a Carys Jones (Cynorthwyydd Dinesig)

**Ymddiheuriadau:** Cyng Rob Parkes

**Arsylwi :** Cynghorydd Gwyneth Kensler, Karen Wynne & Pauline Edwards

**Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor llawn ym mis Medi**

**218 Nodwyd y Cynghorwyr Tref y ffigyrau gan Ringyll Peter Evans o HGC. Dim angen manylion ychwanegol.**

**219 Datganiad Diddordeb Personol:**

| Cynghorydd | Eitem | Personol neu Niweidiol |
|---|---|---|
| Catherine Jones | 9.g | Personol |
| Gaynor Wood-Tickle | 17 | Niweidiol |
| Roy Tickle | 17 | Niweidiol |

**220 Cadarnhau Cofnodion**
**Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 15 Gorffennaf 2020.** (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd gwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

**221 Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 12 Awst 2020**. (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd gwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

**222 Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 9 Medi 2020**. (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd gwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

**223 Materion yn codi: Dim**

**224 Cyfarfodydd Cyngor Tref**

**224.1** Parhau i ddefnyddio Zoom - Dywedodd Clerc Y Dref fod Dave Phillips , ein cynghorydd Iechyd a Diogelwch wedi argymell gwneud y penderfyniad ar gyfer parhad yn y chwarter nesaf. Penderfynodd y Cynghorwyr Tref i ddefnyddio Zoom tan y cyfarfod mis Ionawr pan fydd hyn yn cael ei adolygu eto.

**224.2** Dyddiadau'r dyfodol - cytunwyd ar y dyddiadau arfaethedig gan Gynghorwyr tref. Manylion i'w gyhoeddi ar y wefan.

**224.3** Cyfarfod Blynyddol - cytunwyd ar y dyddiad, 9fed o Ragfyr gan y Cynghorwyr tref, dywedodd clerc y dref y bydd penderfyniad ar sut i symud ymlaen yn cael ei wneud yng nghyfarfod mis Hydref. Mae Carys wedi bod mewn cysylltiad â Chynghorau Tref a Chymuned eraill i weld sut roeddent yn cynnig rheoli cyfarfod blynyddol electronig trwy Zoom.

Dywedodd Clerc y Dref fod y Cyng Rob Parkes wedi cysylltu ynglŷn ag amser y cyfarfodydd yn ddyfodol. Penderfynwyd y Cynghorwyr Tref i newid yr amser i 6.30yh a bydd hyn yn cael ei adolygu mewn ychydig o fisoedd.

**225 Coronofirws**

I dderbyn diweddariadau gan y llywodraeth, ULIC, SLCC, NALC a CSDd mewn perthynas â'u trefniadau wrth gefn/diweddariad ac argymhellion arfaethedig. (wedi'i gylchredeg eisoes os yw'n berthnasol. Dosbarthwyd yr holl ddiweddariadau, ac nid oes unrhyw newidiadau ar hyn o bryd sy'n effeithio ar y Cyngor Tref

**226 Gohebiaeth a dderbyniwyd**

**226.1** CSDd - Tir wrth ei ochr Tan y Sgubor, Dinbych - Roedd y Cynghorwyr tref yn hapus hefo'r enw. Nodwyd hyn.

**226.2** Deall Lleoedd Cymreig - Diweddariad - Ni ofynnir am unrhyw wybodaeth ychwanegol, nodwyd hyn.

**226.3** CSDd - Tai Amlfeddiannaeth addef Tai 2004 - Rhybudd cyhoedded am y cynllun trwyddedu ychwanegol - Nodwyd hyn

**226.4** E-bost gan Jane Borthwick - ail agor llinell rheilffordd Yr Wyddgrug-Dinbych - Trafododd y Cynghorwyr tref y cais, penderfynwyd gweld sut mae'r cynnig i adferu yn ôl i reilffordd yn dod ymlaen. Dyma'r defnydd a fferfir.

**226.5** E-bost gan Janice Jones ynghylch y system un ffordd arfaethedig yn Ninbych - Nodwyd hyn.

**226.6** CSDd - Darparu halen ar ffyrdd gwledig Sir Ddinbych - Nodwyd hyn a dim cwestiynau ychwanegol.

**226.7** Cais gan y grŵp Carnifal i CTD i ofyn am drwydded cynllunio ar gyfer y fainc tu allan i Hope House - Cytunodd y Cynghorwyr tref a gofynnwyd i Glerc y Dref weithredu hyn gyda CSDd.

**227 Cyllid.**

**227.1** Nodi rhestr o daliadau a wnaed ym mis Medi. Nodwyd y rhain**.**

| | | |
|---|---|---|
| 1)Jones & Graham, Cyflog Misol Medi<br>(Rhif Siec 007166) | - | £2,474.26 |
| 2) Jones & Graham, Clwyd Pension Medi<br>(Rhif Siec 007167) | - | £664.92 |
| 3) Jones & Graham, HMRC Medi<br>(Rhif Siec 007168) | - | £768.88 |
| 4) ICO, GDPR/DP ffi adnewyddu<br>(Rhif Siec 007169) | - | £40.00 |
| 5) S Owen, Taliad Dinesig<br>(Rhif Siec 007170) | - | £80.00 |
| 6) B Williams, Taliad Dinesig<br>(Rhif Siec 007171) | - | £75.00 |
| 7) M Andrews, Taliad Dinesig<br>(Rhif Siec 007172) | - | £75.00 |
| 8) P Glynn, Taliad Dinesig<br>(Rhif Siec 007173) | - | £75.00 |
| 9) P Liversidge, Cynnal a chadw Awst<br>(Rhif Siec 007174) | - | £165.00 |
| 10) Catalyst, Band eang mis Medi | - | £38.00 |

(Rhif Siec 007175)
11) Catalyst, Teleffoni Gorffennaf - £29.98
(Rhif Siec 007176)
12) J Barlow, Ad-daliad Zoom - Awst - £14.39
(Rhif Siec 007177)
13) Safety Focus, Ail daliad Iechyd a Diogelwch - £400.00
(Rhif Siec 007178)
14) Catalyst, Band eang mis Awst - £38.00
(Rhif Siec 007179)
15) Catalyst, Wrth gefn Gorffennaf - £4.74
(Rhif Siec 007180)
16) ASL, 06/07/20-05/08/20 Llungopïau - £39.20
(Rhif Siec 007181)

**Cyfanswm £4,982.37**

**227.2** Taliadau sydd angen awdurdodiad - Cytunwyd y Cynghorwyr tref i'r ganlynol -

1) ADT - Cynnal a Chadw CCTV - Blynyddol £1,403.78
(Rhif Siec 007182)
2) Bodfari Amgylcheddol Ebrill - Mehefin £855.00
(Rhif Siec 007183)
(I gynnwys diweddariad o'r gwaith wedi ei wneud) Nodwyd
3) CSDd Cyfraniad Ebrill - Mehefin £9,250.00
(Rhif Siec 007184)

**227.3** Adroddiadau Cyllid - Gohiriwyd tan fis Hydref.

Dywedodd Clerc Y Dref y bydd adroddiadau Archwilio ar y wefan cyn y dyddiad cau o 30.09.20, ynghyd a lwfans y Cynghorwyr ar gyfer 2019/2020.

**227.4** Cais am Gymorth - Trafodwyd y Cais Canlynol
Clwb Pêl Droed Dinbych - S137, £1000.00
(Rhif Siec 007185)

**227.5** Llythyr o ddiolch gan Marie Curie am dderbyn £100.00 - Nodwyd

**228 Cynllunio**

**228.1** 01/2020/0586
24 Mytton Park, Dinbych
Codi estyniad ffenestr bae i ddrychiad blaen yr anedd.

Dim gwrthwynebiadau

.........................................................................................................................................

**228.2** 01/2020/0598
Parciau, Lon St David's, Dinbych
Gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.

Dim gwrthwynebiadau

..........................................................................................................................................

**228.3** 01/2020/0613
Gardd Temple Bar, Lon Broomhill, Dinbych
Tynnu rhan o wal i ffurfio mynediad a grisiau i gerddwyr.

Dim gwrthwynebiadau

..........................................................................................................................................

**229 Sedd wag - Dinbych Uchaf**

Dywedodd Clerc Y Dref y bydd y sedd wag yn Ninbych uchaf oherwydd gwaharddiad Colin L Hughes yn cael ei hysbysebu yn ystod y dyddiau nesaf.

Bydd y sedd wag arall ar gyfer Dinbych Isaf a hysbysebwyd cyn y cyfnod clo yn cael ei gyhoeddi a hysbysebu cyn bo hir.

**230 Diweddariad Digwyddiadau**

**230.1** Tan Gwyllt - Nodwyd diweddariad gan Ringyll Pete Evans & Dave Phillips. Cytunwyd y Cynghorwyr Tref y bydd y digwyddiad eleni yn cael ei ganslo oherwydd y cyfyngiadau Covid 19 cyfredol. Trafodwyd am y posibilrwydd o ddefnyddio'r arian tuag at rywbeth yn nes ymlaen er budd y Gymuned. Trafodir hyn yn y cyfarfod cyn y gyllideb ym mis Tachwedd.

**230.2** Sul y Cofio - Rhoddodd y Cyng Catherine Jones ddiweddariad ar ran y Lleng Prydeinig. Digwyddiad caeedig fydd hwn, gwahoddiad yn unig gyda chau ffyrdd a stiwardiaid i helpu. Bydd hwn yn cael ei recordio a bydd y cyhoedd yn gallu gwylio yn fyw ar 'Facebook'. Bydd y Lleng Prydeinig yn gwneud datganiad i'r wasg i gynghori'r cyhoedd. Bydd cyfle i'r rhai sydd yn dymuno gosod torch wneud hynny ar ôl y digwyddiad. Mae hyn yn destun unrhyw fanylion wedi'u diweddaru a dderbynnir ynghylch Covid 19.

**230.3** Digwyddiad Goleuadau Nadolig arnodd - Bydd y goleuadau'n cael eu troi ymlaen ar Ddydd Gwener olaf mis Tachwedd ond ni fydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei gynnal gan grŵp Digwyddiadau Dinbych oherwydd y cyfyngiadau cyfredol Covid 19. Cytunodd y Cynghorwyr Tref i gael coed ar y 2 gylchfan eleni. Bydd Clerc y Dref yn paratoi datganiad i'r wasg ynghylch y Tan Gwyllt a'r digwyddiad goleuadau Nadolig.

**231 Gwefan**

Rhoddodd y Cyng Dyfrig Berry y wybodaeth ddiweddaraf am y wefan hygyrch newydd. Roedd wedi did ar draws problem munud olaf ynglŷn ar gofnodion ar agendau ond mae yn gweithio trwy hyn. Roedd problem hefyd gyda defnyddio Google i gyrraedd y wefan, bydd y Cyng Berry yn ei gywiro. Diolchodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle i'r Cyng Berry am ei holl waith caled ar y prosiect.

**232 System un ffordd arfaethedig -** diweddariad ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus

Dywedodd Clerc y Dref na chafwyd diweddariad gan CSDd ers i'r manylion gael eu cyhoeddi ar eu gwefan. Ar hyn o bryd mae CSDd yn edrych ar opsiynau ond nid yw CTD wedi derbyn unrhyw hysbysiadau o hyn.

**233 Diwrnodau Parcio am ddim (5)**

Cytunwyd i'r 5 diwrnod am ddim fod ar y 5 Dydd Sadwrn cyn Diwrnod Nadolig. Bydd Clerc y Dref yn hysbysu Grŵp Busnes Dinbych am hyn.

Gadawodd y Cyng Roy Tickle y cyfarfod am 6.13yh

**234 Neuadd y Dref -** Diweddariad gan Glerc y Dref

Cadarnhaodd Clerc y Dref fod Tom Booty yn hapus gyda'r taliad ychwanegol o £10k. Bydd CSDd yn parhau i hwyluso Neuadd y Dref, paentiwyd ardaloedd y tu allan ac mae Gaynor hefyd wedi bod yn peintio tu mewn. Bydd y gegin newydd yn cael ei osod unwaith bydd y cyfyngiadau wedi'u lleddfu. Nid oes CLG eleni ond gofynnodd CSDd i CTD dderbyn yr e-bost yn rhoi manylion y taliad o £37k a'r £10k ychwanegol. Nid oes dyddiadau ar hyn o bryd ar gyfer trosglwyddo asedau.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 6.17yh

Arwyddwyd:..............................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...............................